

*Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin**Disgrifiad o'r modiwl*

Beth sy'n dylanwadu ar ddatblygiad plant? Sut mae plentynod yn newid a pha mor bwysig yw cymdeithas a diwylliant i ddeall y newid hwn? Mae'r modiwl rhagarweiniol hwn yn cynnig cipolwg diddorol i fywydau plant a phobl ifanc. Mae'n cyfuno dulliau o seicoleg, anthropoleg a chymdeithaseg er mwyn darparu cofnod cyflawn o rai o'r dylanwadau cymhleth sy'n llywio profiadau plant. Bydd myfyrwyr yn ymchwilio i bynciau sydd wrth wraidd bywydau plant a phobl ifanc, o'u geni i 19 oed, ac archwilio eu datblygiad emosiynol, corfforol, deallusol, cymdeithasol a diwylliannol. Cânt eu cyflwyno i'r pynciau hyn sy'n ysgogi'r meddwl drwy ddeunyddiau sain, fideo a rhyngweithiol ar-lein.

*Manyleb y person*

Dylid darllen y fanyleb person ar gyfer y modiwl hwn ynghyd â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a gaiff eu nodi ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd anrhydedd mewn astudiaethau plentynod, seicoleg neu addysg
- gwybodaeth am ddamcaniaethau a dulliau gweithredu gwahanol o fewn disgyblaeth astudiaethau plentynod neu seicoleg ddatblygiadol
- profiad addysgu mewn addysg uwch gan gynnwys profiad o helpu myfyrwyr Lefel 1 drwy farcio a hyfforddi
- profiad o helpu sgiliau astudio academaidd myfyrwyr.

Byddai'n fanteisiol meddu ar y canlynol:

- cymhwyster uwch mewn astudiaethau plentynod, seicoleg neu addysg
- profiad o helpu myfyrwyr sy'n gweithio mewn amgylchedd ar-lein
- tystiolaeth amlwg o wneud gwaith ymchwil gyda phlant a phobl ifanc.

*Manylion y modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan*

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	8
Nifer o oriau yr wythnos addysgu sy'n debygol:	7

*Nid yw'r strategaeth addysgu ac asesu ar gyfer y modiwl hwn wedi cael ei gymeradwyo eto ac felly mae'n bosibl y caiff y wybodaeth ei newid.*